CYFRES A6

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Storïau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 22: 1-9

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 22:8

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod

Stori 1 Abraham yn gwrando ar Dduw

Cadwodd Duw ei addewid i Abraham a Sara a rhoi mab iddyn nhw.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau yn y lluniau i gael gwybod beth oedd ei enw.

3

Roedd Abraham a Sara'n caru Isaac yn fawr iawn. Un diwrnod, dywedodd Duw wrth Abraham am fynd â'i fab i'r mynydd a'i ladd yno, yn aberth i Dduw. Roedd Duw am gael gwybod a oedd Abraham yn ei garu ef yn fwy na dim byd arall. Gwnaeth hyn Abraham yn drist iawn, ond bu'n ufudd i Dduw am ei fod yn caru Duw hyd yn oed yn fwy nag yr oedd yn caru Isaac. Roedd yn gwybod y gallai drystio Duw.

C Ticiwch y blwch i ddangos pwy yr oedd Abraham yn ei garu fwyaf.



3

Yn gynnar fore trannoeth, dyma Abraham yn paratoi at y daith. Torrodd goed i wneud tân ac aeth â dau was ac asyn gydag ef. Ar ôl tri diwrnod, daethant at y mynydd yr oedd Duw wedi'i ddewis.

C Rhowch gylch i ddangos sawl diwrnod gymerodd y daith. 3

1 2 3

Dywedodd Abraham wrth y ddau ddyn ifanc am aros amdanynt, gyda'r asyn. Yna, cariodd Isaac y coed a chariodd ei dad y gyllell a'r tân.

C Tynnwch linell syth rhwng y bobl a'r pethau roedden nhw'n eu cario. 6



Abraham Cyllell Coed Tân Isaac

Wrth gychwyn dringo'r mynydd, dywedodd Isaac, "Dad, mae'r coed a'r tân yma ond lle mae'r oen fydd yn cael ei aberthu?" Roedd Abraham yn drist iawn. "Fy mab, bydd Duw'n rhoi'r oen," meddai.

C Yn y swigen siarad, llanwch y bylchau i ddangos beth ddywedodd Abraham wrth Isaac. 5

"B__ ___ D__ __'__
rh __ __'__ O__ __."



Roedd Abraham wedi gwrando ar Dduw ac wedi bod yn ufudd iddo am ei fod yn ei garu'n fwy na dim byd na neb arall. Mae'n bwysig ein bod ninnau hefyd yn ufudd i Dduw. Dyma un ffordd o ddangos ein bod yn ei garu. Roedd Abraham yn credu yn Nuw ac yn ffrind iddo. Gallwch chi gredu yn Nuw a bod yn ffrind iddo hefyd.